# Y General Paper & Box Manufacturing Company ar Ystad Fasnachu Trefforest

**TAFLEN WYBODAETH A GWEITHGAREDDAU I DDYSGWYR**

## 1. Ystad Fasnachu Trefforest

Sefydlwyd Ystad Fasnachu Trefforest ger Pontypridd yn rhan o Ddeddf Ardaloedd Arbennig 1934. Lluniwyd y ddeddf i helpu rhannau o Brydain lle roedd diweithdra'n uchel, ac roedd yn cynnig cymorth i fusnesau sefydlu yn yr ardaloedd hyn. Pan ddechreuodd y Natsïaid feddiannu busnesau Iddewig yn yr Almaen yn y blynyddoedd ar ôl 1933, ffodd nifer o Iddewon yma i sefydlu eu busnesau gyda help y cynllun.

Erbyn mis Mai 1940, roedd 55 o fusnesau gan ffoaduriaid Iddewig yn gweithredu o Drefforest. Roeddent yn darparu swyddi ar gyfer tua 1,800 o bobl leol.

## 2. Gweithgareddau

**GWEITHGAREDD 1**

**a)** Darllenwch yr wybodaeth am y General Paper & Box Manufacturing Company a'r teulu Schoenmann:




*Y plac wal ar gyfer y General Paper & Box Manufacturing Company ar Ystad Fasnachu Trefforest, 1941*

*Delwedd trwy garedigrwydd George Schoenmann.*

Ganed George Schoenmann yn Fienna yn 1934. Roedd tad George, Paul, yn ddyn busnes cynhyrchiol iawn, ac arferai fod yn berchen ar ffatri papurau sigaréts yn Fienna; ond yn dilyn yr *Anschluss* (y broses o atodi Awstria i'r Almaen Natsïaidd ar 12 Mawrth 1938), cymerodd y Natsïaid yr holl fusnesau Iddewig yn Awstria oddi ar yr Iddewon. Cafodd Paul ganiatâd i sefydlu'r General Paper & Box Manufacturing Company ar Ystad Fasnachu Trefforest yn 1938, a daeth y teulu i Gymru fel ffoaduriaid yn 1939, gan symud i'r Eglwys Newydd, Caerdydd.

Roedd y cwmni'n arbenigo mewn dau faes: blychau cardbord moethus a phapurau sigaréts. Câi'r blychau eu cydosod â llaw yn y ffatri.



[*Gweithwyr yn y General Paper & Box Manufacturing Company yn atgyfnerthu corneli blychau wedi'u plygu'n barod*]()

*Delwedd trwy garedigrwydd George Schoenmann.*

Yn ystod yr Ail Ryfel Byd, ystyrid eu busnes yn "hanfodol i'r ymdrech ryfel" gan fod sigaréts yn cael eu dosbarthu'n "hanfodol i gynnal morâl yn y lluoedd a gartref, fel ei gilydd". [1] Roedd y cwmni'n gwneud offer ar gyfer y Weinyddiaeth Amddiffyn hefyd.

Prynwyd y cwmni gan Rizla yn 1948, a chafodd Paul ei orfodi i adael yn 1951. Yn dilyn hynny, cychwynnodd gwmni dodrefn ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Aeth George i'r ysgol yn Aberhonddu, ac ar ôl y rhyfel bu'n gweithio i nifer o'r busnesau Iddewig yn Nhrefforest, yn ogystal ag i gwmni dodrefn ei dad. Yn 1979, sefydlodd ei gwmni ei hun a oedd yn gwerthu rhannau sbâr trydanol, cyn ymddeol yn 70 oed.

[1] George Schoenmann, *Memoirs… The Long Road to Retirement* (Hunangyhoeddiad, Mawrth 2011), t. 18.

**b)** Gwrandewch ar y ddau glip hanes llafar gan George Schoenmann, lle mae'n disgrifio ei gyfnod yn yr ysgol a ffatri ei dad yn Nhrefforest.

**Trawsgrifiadau o Hanes Llafar:**

**George Schoenmann yn siarad am gael ei fwlio yn yr ysgol**

*Es i i'r ysgol wladol a doedd hynny ddim wedi gweithio'n dda iawn am fy mod i – doeddwn i ddim yn gallu siarad Saesneg. Cefais fy mhlagio'n ddidrugaredd. Wyddoch chi, bydden nhw'n galw enwau arna i: 'Jerry' oedd y ffefryn, oherwydd wrth gwrs roedd y rhyfel newydd ddechrau. A bydden nhw'n rhedeg o gwmpas yn esgus bod yn awyrennau, fel y byddai plant bach yn ei wneud bryd hynny, gyda'u breichiau ar led [yn chwerthin], yn gwneud synau, a fi oedd y Messerschmitt a fyddai bob amser yn cael ei saethu. Fodd bynnag, roedd yn, doedd e ddim yn braf iawn a'r ffaith nad oeddwn i'n gallu siarad gair o Saesneg wrth gwrs, ac ni wnaed unrhyw ymdrech mewn gwirionedd i'm cynnwys yn y gwersi. Felly, amser egwyl bob dydd, am ddeg o'r gloch, byddwn i'n sleifio allan trwy'r gât ac yn rhedeg adref [yn chwerthin]. Ac aeth, aeth hyn ymlaen am dri neu bedwar mis mae'n debyg, tan – wel, doedd neb yn fy ngholli yn gyntaf peth, ond cefais fy nal gan, gan chwaer fy nhad, fy modryb, a ddaeth i ymweld â'm mam yn annisgwyl a dod o hyd i mi'n eistedd ar lethr y rheilffordd yn gwylio'r trenau! Ac wrth gwrs, aeth i ddweud wrth fy mam a dyna'r awgrym cyntaf a gafodd fy mam fod rhywbeth wedi mynd o'i le yn yr ysgol.*

**George Schoenmann yn siarad am y General Paper & Box Manufacturing Company**

*Roedd yr unedau'n – cawson nhw eu hadeiladu gan y llywodraeth ar Ystad Trefforest, roedden nhw i gyd fel pe baen nhw o'r un dyluniad. Roedden nhw'n blaen iawn, dim byd ffansi o gwbl. Dim ond adeilad iwtilitaraidd. Dw i'n meddwl ei fod tua saith i 8,000 troedfedd sgwâr ac roedd yr adeilad – roedd ganddo swyddfeydd yn y blaen ac roedd wedi'i rannu'n fras yn hanner a hanner fymryn yn fwy; mae'n siŵr bod tua 55 y cant wedi'i neilltuo ar gyfer papurau sigaréts a'r 45 y cant arall oedd yr adran gwneud blychau. Roedden nhw'n gwneud blychau – wel, wn i ddim, gallech chi roi esgidiau ynddyn nhw – pob math o bethau. Er hynny, wrth gwrs, doedden nhw ddim yn gwneud cystal yn ystod y rhyfel, oherwydd ar un llaw ychydig iawn o stwff newydd a oedd yn cael ei gynhyrchu, a'r un peth nad oedd arnoch ei angen oedd blychau moethus [yn chwerthin]. Felly, roedden nhw'n cael ychydig o drafferth, ac roedd y brif ffrwd refeniw yn dod o'r papurau sigaréts.*

**c)** Ystyriwch a thrafodwch y canlynol mewn parau neu grwpiau bach:

- Pam yr oedd y plant eraill yn ysgol George yn ei fwlio?
- Sut y byddech chi'n teimlo pe byddai rhywun yn eich bwlio chi oherwydd eich cenedligrwydd/crefydd?
- Sut y gallai'r ysgol fod wedi gwneud i George deimlo fel petai'n cael ei gynnwys fwy?

**GWEITHGAREDD 2**

Roedd y plant a ddaeth i'r DU fel arfer yn cael mynd â dim mwy nag un cês dillad gyda nhw. Byddai eitemau arbennig o werthfawr yn aml yn cael eu cadw mewn blwch bach yn y cês dillad.

**a)** Gan weithio mewn parau neu grwpiau bach, ystyriwch a thrafodwch y canlynol:

- Pe byddech yn cael eich gorfodi i ffoi o'ch cartref, pa eitemau o eiddo y byddech am eu cludo gyda chi? A fyddent yn ffitio mewn cês dillad?
- Pam yr ydych wedi dewis yr eitemau penodol hyn?

**b)** Cyflwynwch y prif bwyntiau trafod i'r dosbarth cyfan.

**GWEITHGAREDD 3**

**a)** Creu eich blwch 'eitemau gwerthfawr':

- Torrwch allan dempled y blwch ar y darn papur a roddwyd i chi.
- Ar y templed, darluniwch neu paentiwch yr eitemau a/neu'r atgofion y byddech am fynd â nhw gyda chi. Plygwch y blwch fel bod eich eitemau/atgofion yn ddiogel y tu mewn.
- Cydosodwch y blwch: plygwch ef ar hyd y llinellau toredig a'i ludio/dapio at ei gilydd.

**b)** Ystyriwch a thrafodwch y canlynol mewn parau neu yn y dosbarth:

- Pa eitemau yr ydych wedi eu rhoi yn eich blwch 'eitemau gwerthfawr' a pham?

